
Cyngor Sir Penfro
Pembrokeshire County Council

# Gofal Cymdeithasol Oedolion

# Tîm Camddefnyddio Sylweddau



www.pembrokeshire.gov.uk

Gellir darganfod gwybodaeth am
wasanaethau a ddarperir gan
Gyngor Sir Benfro ar
www.pembrokeshire.gov.uk

**Am gopi o'r llyfryn hwn mewn print bras, Braille, tâp sain neu iaith arall cysylltwch â Chyngor Sir Benfro ar 01437 764551 os gwelwch yn dda**

## Pwy ydym ni?

Tîm o Weithwyr Cymdeithasol a Gweithwyr Cynnal, sy'n gweithio law yn llaw â phobl broffesiynol, dan faner Tîm Cyffuriau ac Alcohol Cymunedol Sir Benfro

## Pwy allwn ni eu helpu?

Rydym ni'n gweithio gyda phobl 18 oed a hŷn sy'n byw neu sydd wedi'u cofrestru'n ddigartref yn Sir Benfro ac sy'n dioddef problemau **sy'n gysylltiedig â'u defnydd o gyffuriau a / neu alcohol** ac sy'n analluog i wynebu'r problemau hyn ar eu pen eu hun. Rydym hefyd yn cydweithio gyda gofalwyr sy'n gofalu am rywun â phroblem cyffuriau / alcohol.

**Gall hyn gynnwys rhoi cymorth i:**

- Rywun sy'n profi ynysu cymdeithasol neu broblemau dwys wrth geisio byw yn y gymuned.
- Rhywun y mae ei blant o dan neu'n wynebu bod o dan achosion Diogelu Plant neu Ofal.
- Rhywun y mae eu rôl gofalu neu rôl eu gofalwr o dan fygythiad.
- Rhywun sy'n ddigartref
- Rhywun sy'n dioddef dyled sylweddol neu broblemau ariannol.
- Rhywun sy'n wynebu problemau teuluol dwys.
- Rhywun sy'n unol â threfn Diogelu Oedolion.

## Beth ydym ni'n ei wneud?

Os cewch eich cyfeirio at y tîm cewch gynnig asesiad o'ch anghenion a fydd yn cael ei gynnal gan Weithiwr Cymdeithasol cymwys. Yn ogystal â siarad â chi ac unrhyw aelod o'r teulu neu ffrindiau yr ydych chi wedi gofyn i ni siarad â nhw, bydd yr asesiad fel arfer yn cynnwys trafod gyda phobl broffesiynol eraill sy'n gyfrifol am ofalu amdanoch chi, fel eich meddyg teulu neu Swyddog Tai. Bydd hefyd yn aml yn cynnwys adolygiad o unrhyw gofnodion y bydd gwasanaethau eraill yn eu cadw amdanoch. Bydd gofyn i chi arwyddo "Cydsyniad i Ddatgelu" cyn yr asesiad, sef eich cydsyniad chi ein bod ni'n gofyn am yr wybodaeth hon.

Ar ôl eich asesiad, byddwn ni'n cytuno cynllun gofal a chynhaliaeth gyda chi a gofynnir i chi arwyddo cynllun gofal a chefnogaeth i gadarnhau hyn. Bydd Gweithiwr Cymdeithasol yn arolygu eich cynllun a bydd Gweithiwr Cynnal yn eich helpu i gael mynediad i bobl broffesiynol, gwasanaethau a gweithgareddau sydd wedi cael eu clustnodi'n angenrheidiol i'ch cynorthwyo chi.

Adolygir eich cynllun o bryd i'w gilydd gan eich Gweithiwr Cymdeithasol a'r nod fydd fod eich annibyniaeth yn cynyddu hyd nes y byddwch yn peidio â bod angen ein cymorth mwyach.

Rhowch wybod os gwelwch yn dda s hoffech i'ch asesiad gael ei wneud yn Gymraeg neu os bydd angen cyfieithydd os oes gennych iaith gyntaf wahanol.

## Cyfrinachedd a risg

Bydd llawer o'r wybodaeth a rowch chi hi ni, neu a roddir gennym gan eraill ar eich rhan, yn bersonol. Rydym yn parchu hyn ac yn sicrhau fod gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei gadw'n ddiogel, yn aros yn breifat ac ond yn cael ei ddefnyddio i'n helpu ni i drefnu'r gwasanaethau, y gefnogaeth a'r cymorth sydd ei angen arnoch chi. Caiff eich gwybodaeth ei gadw ar system gyfrifiadurol Cyngor Sir Benfro.

O bryd i'w gilydd, efallai y gofynnir i ni rannu gwybodaeth gyda phobl broffesiynol eraill, ond byddai hyn fel arfer ond yn cael ei ddatgelu gyda'ch caniatâd chi, yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

Weithiau cwyd achosion pan fyddwn ni dan ofyn cyfreithiol i ryddhau gwybodaeth heb eich caniatâd a bydd y "Cydsyniad i Ddatgelu" y gofynnir i chi ei arwyddo yn eich asesiad yn cadarnhau y bydd cyfrinachedd yn cael ei dorri os down ni'n ymwybodol eich bod chi'n bwriadu achosi niwed i chi eich hunain neu eraill, neu os oes rhywun yn eich niweidio chi. Bydd cyfrinachedd hefyd yn cael ei dorri os oes Gweithiwr Cymdeithasol gofal plant yn archwilio lles eich plant neu blant yr ydych chi'n cael cyswllt â nhw. Byddwn yn eich cynghori chi pan fydd hyn yn digwydd, oni bai ein bod yn ystyried y byddai gwneud hynny'n cynyddu risg i chi neu rywun arall.

## Defnyddio Cyffuriau ac Alcohol

Rydym yn cymryd eich diogelwch chi a diogelwch y tîm o ddifri calon ac ni fyddem yn ystyried fod rhywun yn gallu rhoi cydsyniad llawn i'n hymyriad ni tra bônt o dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol.

Rydym yn cydnabod fod rhywun sydd yn gorfforol ddibynnol ar alcohol yn mynd i fod angen diod cyn dod i apwyntiad, er hynny pe baem ni'n ystyried eich bod wedi yfed gormod ar gyfer cydweithio gyda ni neu i fod yn ddiogel i chi neu ni, ad-drefnir eich apwyntiad. Os nad ydych chi'n gorfforol ddibynnol ar alcohol, gofynnwn i chi fynychu eich apwyntiad yn rhydd o unrhyw alcohol a chyffuriau. Byddwn yn gofyn i chi a ydych wedi defnyddio cyffuriau neu gael diod cyn yr apwyntiad, ac os byddwch wedi gwneud, ad-drefnir yr apwyntiad.

Ni fydd y ffaith eich bod chi'n cymryd meddyginiaeth a roddwyd gan feddyg yn effeithio ar ein gwaith gyda'n gilydd.

Bydd eich gweithiwr cynnal yn eich helpu i reoli unrhyw ofid a deimlwch mewn sefyllfaoedd cymdeithasol dan amodau y byddech wedi defnyddio cyffuriau neu alcohol i'w rheoli yn y gorffennol.

## Sut i wneud cyfeiriad

Os oes gennych chi neu rywun yr ydych chi'n gofalu amdano weithiwr eisoes yng ngwasanaethau camddefnyddio sylweddau Sir Benfro ac yr hoffech gael asesiad gofal cymdeithasol, gallwch ofyn i'ch gweithiwr wneud cais am hyn ar eich rhan.

Os nad oes gennych chi neu rywun yr ydych chi'n gofalu amdano weithiwr eisoes yng ngwasanaethau camddefnyddio sylweddau Sir Benfro gallwch ffonio **03303639997** a gofyn am Asesiad Cychwynnol a fydd yn cael ei gynnig o fewn deg diwrnod gwaith fel arfer. Gallwch wneud cais am asesiad gofal cymdeithasol adeg eich Asesiad Cychwynnol os ydych yn dymuno'i gael.

## Eisiau cyngor pellach?

Os nad ydych chi'n siŵr beth i'w wneud neu rydych eisiau cyngor pellach gallwch gysylltu'n uniongyrchol â'r tîm gofal cymdeithasol ar **01437 774141** a gofyn am gael siarad â'r swyddog ar ddyletswydd.

## Rhifau defnyddiol

**Dan 24/7** - Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol Cymru
**0800 808 2234**

Os oes angen Eiriolwr arnoch i'ch helpu wrth i chi gysylltu â'r tîm gallwch gysylltu â **Dewis** ar
**01646 629123**

## Cwynion, Sylwadau a Chanmoliaeth.

Rydym yn croesawu eich syniadau a'ch sylwadau. Os oes gennych unrhyw farn, da neu ddrwg, yng nghyd-destun eich cyswllt â'r tîm, rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda.

Byddwch yn derbyn taflen adeg eich asesiad sy'n cadarnhau trefn gwyno, canmol a gwneud sylwadau Cyngor Sir Benfro, i'w llenwi pe bai angen hynny arnoch. Gallwch hefyd gysylltu â'r swyddog cwynion ar **01437 775503** ond byddem yn ddiolchgar pe gallech roi cyfle i ni siarad gyda chi am eich problem a cheisio datrys unrhyw beth yr ydych yn anhapus ag ef gyntaf.

Byddwch yn derbyn ffurflen adborth ar ôl eich asesiad ac ar ôl pob adolygiad a bydd hon yn ein helpu i sicrhau ein bod ni'n darparu'r gwasanaeth gorau y gallwn ni os ydych chi'n gallu'i llenwi a'i dychwelyd yn yr amlen y talwyd amdani eisoes a ddarperir.